O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2018 Rhif 889 (Cy. 177)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Llandeilo i Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 40 mya a Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2018

Gwnaed	*20 Gorffennaf 2018*
Yn dod i rym	*30 Gorffennaf 2018*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A40, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd ac oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Llandeilo i Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 40 mya a Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 30 Gorffennaf 2018.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig 1984(**2**); a

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 30 Gorffennaf 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A40 Llandeilo i Gaerfyrddin;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Cyfyngiad a Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

5.—(1) Ni fydd y gwaharddiad a'r cyfyngiad yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Atal dros dro

6. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau modur ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn gymwys.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 20 Gorffennaf 2018

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI
Darnau o'r gefnffordd rhwng Llandeilo a Chaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin

ATODLEN 1
Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 240 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4310 i Nantgaredig hyd at bwynt 1.36 cilometr i'r dwyrain o'i chyffordd â ffordd Dosbarth III yr C2050 i Felin-wen.

ATODLEN 2
Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ochr orllewinol Cylchfan Llandeilo, Llandeilo hyd at ochr ddwyreiniol Cylchfan Glangwili, Caerfyrddin.